# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016

Amser: 09.06 - 10.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3348

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Elin Jones AC (yn lle Bethan Jenkins AC)<br>Joyce Watson AC |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Gill Eveleigh (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF182KB) Gweld fel HTML (147KB).

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins a Russell George.

Dirprwyodd Elin Jones ar ran Bethan Jenkins yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-04-661 Gwahardd Defnydd Ar-lein a Phleidleisio Electronig gan Aelodau Cynulliad yn Siambr y Senedd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i anfon sylwadau'r deisebwyr at y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad i gael eu barn.

## 2.2 P-04-662 Mae'n anodd amgyffred sut y byddai bywyd wedi bod heb fy Ngweithiwr Cymorth

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros i glywed barn y deisebydd ar lythyr y Gweinidog.

## 2.3 P-04-663 Bwyd yn Ysbytai Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn ei farn am sylwadau'r deisebydd; a'r
- Byrddau Iechyd Lleol i gael eu barn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb.

## 2.4 P-04-664 Datblygwch Fferm Tynton yn Ganolfan Ymwelwyr a Gwybodaeth

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros i glywed barn y deisebydd ar lythyr y Gweinidog.

## 2.5 P-04-666 Democratiaeth mewn Llywodraeth Leol

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- Ofyn i'r deisebydd ystyried ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft fel y gellir ystyried ei safbwynt yn y broses honno;
- Gofyn i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (CCLlL) ystyried barn y deisebwr pan fydd yn ystyried y Bil drafft; a
- Chau'r ddeiseb.

### 2.6 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Trafodod y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i gael ymateb i sylwadau'r deisebydd.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

Trafodod y Pwyllgor ohebiaeth a gafwyd gan awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chytunwyd i ysgrifennu atynt eto i ofyn am y newyddion diweddaraf am y sefyllfa.

### 3.2 P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i:

- groesawu ei ymateb;
- gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor o fanylion pellach yr ymgynghoriad arfaethedig fel y gall y deisebwyr gyfrannu ato; a
- cheisio cael sicrwydd y bydd yr ymgynghoriad yn ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael y cyfle i gyfrannu.

### 3.3 P-04-623 Wella'r Ddarpariaeth o Dai sy'n Addas i Bobl Anabl yng Nghymru

Trafodod y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb, o ystyried yr ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y Gweinidog a'r deisebwyr.

### 3.4 P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau yng Nghymru

Trafodod y Pwyllgor ohebiaeth am y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb gan ei bod, mewn gwirionedd, wedi cyflawni ei diben.

### 3.5 P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

- Trafodod y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb o ystyried bod yr awdurdodau perthnasol wedi mynd i'r afael â'r materion a sbardunodd y ddeiseb wreiddiol.

### 3.6 P-04-397 Cyflog Byw

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a, gan fod y Llywodraeth wedi derbyn y ddeiseb mewn egwyddor; y camau sy'n cael eu cymryd drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, ac nad yw'r bobl ifanc a oedd yn rhan o gyflwyno'r ddeiseb yn rhan o hyn bellach; i gau'r ddeiseb.

### 3.7 P-04-631 Achub ein Gwasanaeth - Achub Anifeiliaid Mawr yng Ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i'w chau.

### 3.8 P-04-650 Cael Gwared ar Gyflogau Cynghorwyr Llywodraeth Leol

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.9 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunwyd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn iddi ymateb i i sylwadau'r deisebydd.

### 3.10 P-04-556 Na i gau Cyffordd 41

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a chytunwyd i aros am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.11 P-04-657 Codi Tâl am Barcio a'r Berthynas â Strydoedd Mawr a'u Llwyddiant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.12 P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a, gan fod prif amcanion y ddeiseb wedi'u cyflawni, cytunwyd i'w chau.

### 3.13 P-04-523 Diogelu'r henoed a phobl sy'n agored i niwed mewn cartrefi gofal

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb, ar gais y deisebydd.

### 3.14 P-04-553 Ymchwiliad llawn ac annibynnol i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thechnolegau diwifr a ffonau symudol yng Nghymru, gan gynnwys yr holl ysgolion

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i anfon sylwadau'r deisebwyr, ynghyd â deunydd ychwanegol a ddarparwyd, at y Gweinidog a gofyn iddi eu rhannu â PHE-CRCE, cyn penderfynu a ddylid cau'r ddeiseb.

### 3.15 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i rannu sylwadau'r deisebydd â'r Gweinidog ac yna ystyried cau'r ddeiseb.

### 3.16 P-04-587 Tîm Cymorth pwrpasol ar gyfer dioddefwyr Enseffalomyelitis Myalgig (ME), Syndrom Blinder Cronig a Ffibromyalgia yn ne-ddwyrain Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a, gan y rhan fwyaf o'r camau gweithedu y gwneir cais amdanynt yn y ddeiseb wedi'u cyflawni, cytunwyd:

- i gau'r ddeiseb; ac
- wrth wneud hynny, ddwyn sylwadau'r deisebydd i sylw'r Gweinidog.

### 3.17 P-04-608 Ymchwiliad i'r GIG yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.18 P-04-638 Y Gwasanaethau Brys - Pŵer Mynediad

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.19 P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Glodi a gan Blant yng Nghymru a chytunwyd i:

- Gau'r ddeiseb; ac
- Wrth wneud hynny, gofyn i Plant yng Nghymru ymateb i sylwadau diweddaraf y deisebwyr.

### 3.20 P-04-643 Diogelu Dechrau'n Deg yng Nghroeserw

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.21.

### 3.21 P-04-645 Achub Dechrau'n Deg Glyncorrwg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gweithredu dros Blant ynghylch y ddeiseb hon a P-04-643 Arbed Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a chytunwyd i gau'r ddwy ddeiseb.

### 3.22 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Gweler y cam gweithredu y cytunwyd arno o dan eitem 3.23.

### 3.23 P-04-606 Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn diolch iddo am ei ymgysylltiad hyd yn hyn a gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf o ran unrhyw ymatebion, yn enwedig gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

### 3.24 P-04-651 Gweithio i Amddiffyn Llywodraeth Leol wrth Bennnu Cyllidebau yn yr Hydref

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried pwyntiau pellach y deisebwyr; a
- Chau'r ddeiseb.

### 3.25 P-04-656 Sefydlu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunwyd i ysgrifennu at y Llywydd a'r Prif Weinidog yn unol â thermau cais y deisebydd.